# Adroddiad ar yr Ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd

**30 Mawrth 2026**

## Cefndir

**1.** Cyhoeddwyd yr ymgynghoriad ar y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd ar 15 Rhagfyr 2025 a daeth i ben ar 4 Chwefror 2026.

**2.** Gofynnodd y Bwrdd am safbwyntiau ar y Penderfyniad drafft diwygiedig a symlach ar gyfer y Seithfed Senedd, nifer gyfyngedig o newidiadau polisi ychwanegol arfaethedig, a'r uwchraddio chwyddiannol blynyddol o gymorth ariannol ar gyfer 2026–27; nid oedd yr ymgynghoriad yn gofyn am farn ar gynnwys sylweddol y polisi yr oedd y Bwrdd eisoes wedi cytuno arno a'i gyhoeddi ym mis Gorffennaf 2025.

**3.** Mae'r Bwrdd yn ddiolchgar i'r sefydliadau, grwpiau ac unigolion hynny a roddodd o'u hamser i ymateb. Mae rhestr o'r rheini yr ymgynghorwyd â nhw ac a ymatebodd yn Atodiad A.

**4.** Mae'r Bwrdd wedi trafod yr adborth a gafwyd, a oedd yn gefnogol iawn i'r ddogfen Penderfyniad ddiwygiedig a symlach, ac mae wedi gwneud ei benderfyniadau terfynol sydd wedi'u cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd a gyhoeddwyd ar 30 Mawrth 2026, a fydd mewn grym o 7 Mai 2026.

**5.** Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r adborth i'r ymgynghoriad ac ystyriaethau'r Bwrdd mewn ymateb i bob un o'r cynigion.

**6.** Gwnaed nifer o ddiwygiadau bach i'r Penderfyniad terfynol, i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach a lle gwnaed diwygiadau neu fewnosodiadau sylweddol, cyfeirir atynt yn yr adroddiad hwn.

**7.** Hefyd, lluniodd y Bwrdd atodiad i'w asesiad effaith cydraddoldeb a gyhoeddwyd ym mis Gorffennaf 2025, gan nodi asesiad o gynigion polisi dilynol. Mae'r atodiad ar gael yma. Lluniodd y Bwrdd hefyd asesiad o effaith y Penderfyniad ar y Gymraeg, sydd ar gael yma.

# Y Penderfyniad Drafft a Symleiddio

## Cefndir

**8.** Mae symleiddio'r Penderfyniad wedi bod yn amcan allweddol i'r Bwrdd ac yn un o adolygiadau thematig craidd y Bwrdd yn ystod ei dymor diwethaf.

**9.** Mae egwyddorion a rheolaethau sylfaenol y Penderfyniad wedi cael eu hadolygu, ac, mewn rhai meysydd, mae'r Bwrdd wedi ceisio rhoi mwy o hyblygrwydd i'r Aelodau benderfynu sut maent yn rheoli eu hadnoddau er mwyn diwallu eu hanghenion nhw neu anghenion eu hetholwyr neu eu ffyrdd dewisol o weithio, gan gynnal cydbwysedd cadarn rhwng atebolrwydd ac ymrwymiad i werth am arian i'r trethdalwr.

**10.** Roedd y Penderfyniad drafft diwygiedig yn cynnwys sawl diwygiad i symleiddio'r ddogfen:

- Newid terminoleg a theitlau
- Dileu dyblygu rhwng penodau
- Mewnosod diben clir a chyson ym mhob pennod
- Dileu cyfeiriadau at brosesau neu bolisïau Comisiwn y Senedd, gan mai mater i'r Comisiwn yw gweinyddu'r Penderfyniad
- Cynnwys lincs http i ddeddfwriaeth, dogfennau neu gyhoeddiadau perthnasol er hwylustod cyfeirio, i gynorthwyo Aelodau a staff cymorth i ddeall a chymhwyso'r Penderfyniad.
- Symud yr holl gyflogau a chostau staffio a busnes hawliadwy i dabl mewn Atodiad
- Mewnosod crynodeb o'r gwelliannau i hawliau statudol yn Nhelerau ac Amodau Staff Cymorth mewn Atodiad.

**11.** Cyfrif geiriau'r Penderfyniad terfynol yw 11,495 o'i gymharu â Phenderfyniad 2025-26, sydd â 20,859 o eiriau.

## Crynodeb o adborth yr ymgynghoriad a'i ystyried

**12.** Roedd yr ymatebion hynny i'r ymgynghoriad a wnaeth sylwadau ar y drafftio neu'r symleiddio diwygiedig naill ai'n cefnogi neu'n croesawu'r dull diwygiedig.

**13.** Dywedodd Comisiynydd Safonau y Senedd:

'Rwyf yn croesawu'r eglurder pellach ar y Penderfyniad drafft. Bydd hynny'n lleihau'r risg y bydd yr Aelodau a gaiff eu harchwilio yn ceisio osgoi cyfrifoldeb dros eu camymddwyn drwy honni eu bod wedi camddeall y darpariaethau.'

**14.** Cadarnhaodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd yr hyn a ganlyn:

'Mae strwythur y ddogfen yn glir ac yn syml i'w ddilyn. Mae'r symleiddio'n gweithio'n dda i wneud y darpariaethau'n hygyrch ac yn haws eu defnyddio'

**15.** Nododd Grŵp Plaid Cymru yr hyn a ganlyn am y Penderfyniad drafft:

'...is a clearer, more accessible document - one that is easier to read, interpret and apply in practice for Members, their staff and the Senedd Commission, whilst also providing a document that is more transparent to the public.'

**16.** At hynny, croesawodd grŵp Plaid Cymru yr hyn a ganlyn:

'...the Board's comprehensive work to review and address issues identified with previous Determinations in terms of ensuring equality and diversity.'

**17.** Croesawodd Grŵp Llafur Cymru y gwaith i symleiddio'r Penderfyniad, lleihau ei hyd a gwella hygyrchedd ac eglurder yr atodiadau. Nododd hefyd:

'We recognise the need to remove references to the administration of the Determination in order to avoid confusion, but would welcome further work to ensure that the details of how the Determination is implemented - and particularly the guidance issued by MBS - are easily accessible to Members and staff and set out arrangements in a clear, accessible and comprehensive way to aid understanding and awareness.'

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Gwnaed nifer o fân welliannau drafftio i'r Penderfyniad terfynol i wella hygyrchedd a darllenadwyedd ymhellach neu mewn ymateb i bwyntiau egluro a godwyd yn yr ymgynghoriad.

Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at Gomisiwn y Senedd ynghylch paratoi deunyddiau canllaw newydd neu wedi'u diweddaru sy'n ymwneud â'r Penderfyniad, o ystyried bod y rhain yn rhan hanfodol o fframwaith hawliadau'r Aelodau ochr yn ochr â'r Penderfyniad.

# Pennod 1: Egwyddorion, rheolau cyffredinol, costau eithriadol a dehongliad

### Cefndir

**18.** Roedd yr ymgynghoriad yn nodi Pennod 1 drafft diwygiedig, a gafodd ei symleiddio ac a wnaeth ddileu dyblygu ac adrannau penodol yn ymwneud â rôl a chyfrifoldebau Comisiwn y Senedd.

**19.** Mae'r adran Dehongli wedi'i diweddaru i adlewyrchu'r derminoleg newydd ac mae hefyd wedi'i symud a'i hymgorffori yng nghorff y Penderfyniad fel rhan o Bennod 1 i sicrhau ei bod yn cael ei darllen a'i chyfeirio ato wrth ddefnyddio'r Penderfyniad.

**20.** Roedd y drafft diwygiedig hefyd yn cynnwys egwyddor newydd 'Cydraddoldeb Cynrychiolaeth', yn gyson â'r egwyddor a gafodd ei chynnwys yn y Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd yn ystod y Chweched Senedd, i ddatgan bod 'Rhaid i Aelodau sicrhau eu bod yn trin etholwyr yn gyfartal, waeth beth fo barn wleidyddol plaid (gwirioneddol neu ganfyddedig) yr etholwyr'.

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**21.** Cytunodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

> 'Mae dwyn ynghyd y diben, yr egwyddorion, y rheolau cyffredinol a'r dehongliad mewn un bennod yn gwella defnyddioldeb trwy gael man cychwyn wedi'i gydlynu.

**22.** Croesawodd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y cynnig i fewnosod yr egwyddor 'cydraddoldeb cynrychiolaeth'.

**23.** Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fwriad y Bwrdd i fewnosod yr egwyddor 'cydraddoldeb cynrychiolaeth' a oedd yn dyblygu geiriad o'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd a chadarnhaodd:

> 'Mae'n ymddangos bod ei chynnwys yn y Penderfyniad yn fwy priodol, gan fod y mater yn ymwneud ag ymgysylltu ag etholwyr, a bod y ddyletswydd gyffredinol yn y Rheolau sy'n ymwneud â chyfle cyfartal wedi'i chynnwys yn Rheol 2. Felly, byddaf yn manteisio ar y cyfle i gael gwared ar ddyblygu o'r Rheolau.'

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Gwnaed mân newidiadau drafftio a diweddariadau i'r adran Dehongli i'r Penderfyniad terfynol i wella hygyrchedd ymhellach a chynorthwyo dehongli.

# Pennod 2: Tâl Aelodau a Deiliaid Swyddi Ychwanegol

### Cefndir

**24.** Gwnaeth y Bwrdd ei benderfyniad ar gyflogau Aelodau a deiliaid swyddi ychwanegol ym mis Gorffennaf 2025 ac nid oedd yr ymgynghoriad yn cynnwys unrhyw gynigion pellach.

**25.** Roedd y newidiadau drafftio yn cynnwys gwybodaeth ychwanegol yn ymwneud â hawl i bensiynau, terminoleg sydd wedi'i newid yn ymwneud ag Arweinydd Grŵp Senedd a symud y cyflogau i dabl mewn Atodiad.

### Crynodeb o'r ymatebion

**26.** Ni ddarparwyd unrhyw sylwadau ar ddrafftio diwygiedig Pennod 2, fodd bynnag, ailddatganodd Grŵp Plaid Cymru ei farn na ddylai cyflog yr Aelodau fod yn fater i'r Aelodau a bod rhaid iddo barhau i fod yn benderfyniad annibynnol i'r Bwrdd Taliadau.

### Canlyniad: Newidiadau drafftio

Gwnaed nifer gyfyngedig o welliannau drafftio i ddarparu eglurder neu gysondeb â phenodau eraill y Penderfyniad.

### Cadeiryddion Pwyllgor sy'n Rhannu Swydd

**27.** Pleidleisiodd y Senedd ar 25 Chwefror 2026 i gyflwyno Rheol Sefydlog 17A dros dro i alluogi cadeiryddion pwyllgorau i rannu swyddi am gyfnod prawf.

**28.** Nid oedd y Penderfyniad drafft yn darparu ar gyfer rhannu cyflogau cadeiryddion pwyllgorau ac felly cyhoeddodd y Bwrdd ymgynghoriad byr ar dâl cadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swyddi.

**29.** Nododd y Bwrdd na ddylai cyflog cyfunol cadeiryddion sy'n rhannu swydd fod yn fwy na chyflog cadeirydd pwyllgor fel y'i nodir yn y Penderfyniad (sef £16,212 o 1 Ebrill 2026) ac y dylid rhannu cyflog cadeirydd pwyllgor yn gyfartal rhwng y cadeiryddion sy'n rhannu swydd (£8,106 fesul cadeirydd sy'n rhannu swydd).

**30.** Nododd y Bwrdd mai cynllun peilot yw'r Rheol Sefydlog dros dro ac y gallai'r Senedd adolygu'r dull, a gallai profiad a thystiolaeth bellach lywio unrhyw ddull tymor hwy o ymdrin â thaliadau.

## Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**31.** Ni wnaeth Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig sylwadau ar y cynnig ar gyfer tâl ond nododd ei wrthwynebiad mewn egwyddor i drefniadau rhannu swyddi yn y Senedd.

**32.** Cytunodd Grŵp Plaid Cymru â chynnig y Bwrdd.

**33.** Dywedodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd na ddylai cyflog cyfunol cadeiryddion sy'n rhannu swydd fod yn fwy na chyflog cadeirydd pwyllgor fel y'i nodir yn y Penderfyniad, sy'n ymddangos yn ddull pragmatig i'r 'peilot' yn ei barn hi.

**34.** Cytunodd Pwyllgor Busnes y Senedd â chynnig y Bwrdd na ddylai cyflog cyfunol cadeiryddion sy'n rhannu swyddi fod yn fwy na chyflog cadeirydd pwyllgor fel y'i nodir yn y Penderfyniad. Nododd y Pwyllgor Busnes hefyd farn y Bwrdd fod rhannu'r cyflog yn gyfartal yn briodol at ddibenion symlrwydd a thryloywder, ac y gellid adolygu'r dull hwn yn y dyfodol ar sail unrhyw brofiad a thystiolaeth a geir yn ystod y cyfnod prawf o rannu swyddi ar gyfer cadeiryddion pwyllgorau yn ystod y Senedd nesaf.

### Penderfyniad: Cyflog Cadeirydd sy'n Rhannu Swydd

Penderfynodd y Bwrdd y byddai cyflog cadeiryddion pwyllgorau sy'n rhannu swydd yn gyfran gyfartal o gyflog cadeirydd pwyllgor fel y'i nodir yn y Penderfyniad (£8,106 fesul cadeirydd sy'n rhannu swydd o 1 Ebrill 2026).

Mae'r Bwrdd wedi cyhoeddi datganiad o amgylchiadau eithriadol gan fod y Bwrdd wedi gwneud ei benderfyniad ar gyflogau deiliaid swyddi ychwanegol ym mis Gorffennaf 2025 a dim ond un penderfyniad o'r fath y gall ei wneud fesul tymor yn y Senedd oni bai bod amgylchiadau eithriadol.

### Canlyniad: Newidiadau drafftio

Mewnosod cyflog cadeiryddion pwyllgor sy'n rhannu swyddi yn Nhabl 2 o Atodiad A.

# Pennod 3: Cymorth ychwanegol

## Cefndir

**35.** Roedd y ddogfen ymgynghori yn nodi newidiadau drafftio i'r Bennod ar Gymorth Ychwanegol a oedd yn ceisio symleiddio ac egluro'r trefniadau a lleihau'r baich gweinyddol ar Aelodau a staff cymorth.

**36.** Hefyd, ymgynghorodd y Bwrdd ar gynnig i gynyddu'r terfyn uchaf o £350 fesul dibynnydd ar gyfer costau gofal yn ôl cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026 o ddechrau'r Seithfed Senedd.

## Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**37.** Croesawodd Grŵp Plaid Cymru ymrwymiad y Bwrdd i alinio'r Penderfyniad â model cymdeithasol anabledd a dywedon nhw yr hyn a ganlyn:

> '….[we] believe that the proposals outlined align well with the work to ensure that the Senedd is family friendly and inclusive to both encourage greater diversity in representation and reduce barriers to becoming a Member of the Senedd.'

**38.** Er na chyflwynodd ymateb i ymgynghoriad y Bwrdd, casglodd yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd ystod o dystiolaeth a gwnaeth amrywiaeth o argymhellion ar gyfer y Seithfed Senedd. Cyhoeddodd ei adroddiad ar 3 Mawrth 2026[1], a ddywedodd:

> 'Mae'r Bwrdd Taliadau Annibynnol, sy'n pennu cyflog a lwfansau'r Aelodau, yn arwain y ffordd o ran darparu costau gofal plant 'y tu allan i oriau arferol', drwy sicrhau y gellir eu hawlio yn y dyfodol yn ystod Toriadau ac ar benwythnosau, yn ogystal â chyda'r nos. Mae'r Bwrdd hefyd wedi gwella'r ddarpariaeth i ddibynyddion yr Aelodau deithio, yn ogystal â galluogi Aelodau cymwys i ddarparu llety i ddibynyddion ychwanegol yn eu llety yng Nghaerdydd.'

**39.** Argymhellodd yr adroddiad hefyd y dylai Comisiwn y Senedd wneud yr hyn a ganlyn:

> 'parhau i sicrhau bod hawliadau sy'n ymwneud â chyfrifoldebau gofalu yn cael eu cyhoeddi ar sail gyfanredol a dienw, er mwyn osgoi adnabod unigolion ac i ystyried materion cydraddoldeb wrth benderfynu ar y polisi sy'n ymwneud â chyhoeddi costau.'[2]

---

[1] Senedd i bawb: Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd
[2] Argymhelliad 20, Senedd i bawb: Adroddiad ar yr Adolygiad o Senedd sy'n Gynhwysol ac yn Ystyriol o Deuluoedd

**40.** Nododd yr atodiad i'r asesiad effaith cydraddoldeb na fyddai cyfeiriadau cyfredol at gyhoeddi hawliadau o'r fath yn 'gyfanredol a dienw' yn cael eu cynnwys yn y Penderfyniad mwyach, gan mai mater i Gomisiwn y Senedd yw'r cyfrifoldeb am gyhoeddi hawliadau. Fodd bynnag, nododd y gallai cyhoeddi unigol fod yn rhwystr i wneud hawliadau; mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn tynnu sylw at y newid drafftio hwn ac yn gofyn am wybodaeth am sut mae Comisiwn y Senedd yn bwriadu cyhoeddi hawliadau Aelodau am gostau cymorth ychwanegol yn y Seithfed Senedd.

**41.** Cadarnhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026 yn 3% ar 13 Chwefror 2026.

**Penderfyniad: Costau**

Bydd cost gofal o ddechrau'r Seithfed Senedd yn £361 fesul dibynnydd (hyd at uchafswm o 3 dibynnydd).

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach.

Mae adrannau 3.1.7 a 3.3.5, sy'n ymwneud â pha gyllidebau y byddai unrhyw gostau'n cael eu hawlio ohonynt, wedi'u cyfuno a'u symud i adran newydd 3.5 ar ddiwedd y bennod; mae'r dull hwn yn gyson â phenodau eraill yn y Penderfyniad.

Mae adran 3.3.4 yn ymwneud â chostau staff cymorth ychwanegol y gellir eu hawlio pan fo Aelod yn cymryd absenoldeb rhiant. Mae cyfeiriadau at gostau ar gyfer llety, cynhaliaeth a theithio staff ym Mhennod 7 bellach wedi'u cynnwys yn ogystal â chostau ac adrannau eraill sy'n ymwneud â staffio. Cafodd hyn ei hepgor yn y drafft ac mae'n ei gwneud yn glir y byddai’r holl hawliadau yn ymwneud â’r holl gyflog, telerau ac amodau'r holl staff fel y'u nodir ym Mhennod 7 yn berthnasol i unrhyw staff dros dro a benodir i ddarparu cymorth i Aelod sydd ar absenoldeb rhiant.

Mae'r Bwrdd wedi ysgrifennu at Brif Weithredwr a Chlerc y Senedd yn tynnu sylw at y newid drafftio sy'n ymwneud â chyhoeddi costau o dan Bennod 3.

# Pennod 4: Llety Dros Nos

## Cefndir

**42.** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys sawl newid i'r drafftio, gan gynnwys newid teitl y Bennod i 'Llety Dros Nos' o 'Gwariant ar lety preswyl'.

**43.** Roedd y diwygiadau hefyd yn cynnwys symud yr holl gostau i'r tabl yn Atodiad A, ac adran newydd 4.9 gyda'r adrannau 7.16 ac 8.5B presennol, sy'n ymwneud â llety staff cymorth a llety staff grŵp yn y drefn honno, yn cael eu symleiddio a'u cynnwys yn y bennod hon fel bod yr holl faterion sy'n ymwneud â llety dros nos yn y DU mewn un lle.

**44.** Nododd yr ymgynghoriad hefyd y byddai ceisiadau i ystyried 'achosion ffiniol' yn ymwneud â lleoliad prif gartrefi yn yr Ardal Allanol neu'r Ardal Fewnol ac y byddai amgylchiadau eithriadol yn ymwneud â llety ychwanegol i aelodau'r Ardal Fewnol yn faterion i'w hystyried gan y Bwrdd, yn hytrach na Chomisiwn y Senedd fel sy'n wir ar hyn o bryd.

**45.** Nododd yr ymgynghoriad gynnig i ddileu 'Opsiwn B', sydd ar hyn o bryd yn darparu i Aelodau hawlio costau nad ydynt yn gostau rhentu/cyfalaf fel y dreth gyngor a biliau cyfleustodau mewn perthynas â chartref yn ardal Caerdydd a ddarperir ar draul yr Aelod ei hun. Cafodd barn y Bwrdd ei llunio gan yr egwyddor na ddylai fod unrhyw fudd personol mewn perthynas ag unrhyw hawliadau o dan y Penderfyniad ac na ddylai Aelodau wneud hawliadau sy'n arwain at y canfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol i Aelod neu unrhyw berson arall.

**46.** Nododd yr ymgynghoriad hefyd y cynnydd arfaethedig canlynol i lety dros nos:

- Y gyfradd llety dros nos uchaf yn y Deyrnas Unedig (Caerdydd a mannau eraill, adran newydd 4.7) wedi'i chynyddu gan ffigur y Mynegai Prisiau Defnyddwyr ar gyfer Ionawr 2026,
- Cynyddu'r gyfradd llety dros nos uchaf yn Llundain i £230,
- Bydd cyllideb llety dros nos Aelodau'r Ardal Fewnol (adran newydd 4.1.1) yn parhau i gyfateb i 6 noson ar y gyfradd llety dros nos uchaf wedi'i huwchraddio,
- Bydd cyfraddau cynhaliaeth yn cynyddu (adran newydd 4.8.1) i £30 am gyfnod o 24 awr o ddechrau'r Seithfed Senedd,

- Bydd y swm blynyddol uchaf y gellir ei hawlio am lety dros nos yng Nghaerdydd gan Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr Ardal Allanol yn cynyddu 3.4% o ddechrau'r Seithfed Senedd, a
- Bydd y costau llety dros nos ychwanegol sydd ar gael i Aelodau yn yr Ardal Allanol sydd â chyfrifoldebau gofalu yn aros yr un fath.

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**47.** Cadarnhaodd y Swyddfa Ystadegau Gwladol fod cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026 yn 3% ar 13 Chwefror 2026.

**48.** Gofynnodd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd am eglurhad ynghylch pa eitemau y gallai hawliadau cynhaliaeth eu cynnwys yn rhesymol, o ystyried bod rhywfaint o le i ddehongli yn seiliedig ar wahanol ddiffiniadau a ddefnyddir yn y sector cyhoeddus. Felly cytunodd y Bwrdd i nodi mai ystyr cynhaliaeth yw 'bwyd a diodydd di-alcoholig'.

**49.** Trafododd y Bwrdd yr angen am reolau ychwanegol yn ymwneud â hawliadau cynhaliaeth, gan gynnwys mai dim ond ar gyfer teithio y tu allan i etholaeth Aelod a/neu y tu hwnt i'r Senedd ym Mae Caerdydd y byddai hawliadau cynhaliaeth yn cael eu caniatáu.

**50.** Fodd bynnag, mae'r Bwrdd yn cydnabod bod sawl etholaeth newydd yn fawr yn ddaearyddol, ac efallai y bydd gofyn i rai Aelodau fod yn bresennol mewn cyfarfodydd etholaeth yn hwyr yn y nos neu bellter sylweddol i ffwrdd o'u cartref neu swyddfa'r etholaeth. Roedd y Bwrdd yn cydnabod y gallai rhai Aelodau fyw yn agos at ffin eu hetholaeth a gallai meini prawf 'y tu allan i'r etholaeth' arwain at wneud hawliadau afresymol.

**51.** Nododd y Bwrdd hefyd fod hawliadau'r Aelodau am gynhaliaeth yn ystod y Chweched Senedd wedi bod yn gyfyngedig:

- Mae'r data hawliadau diweddaraf a gyhoeddwyd ar gyfer 2025-26 (hyd at ddiwedd mis Tachwedd 2025) yn dangos bod cyfanswm o £1,300.61 mewn costau cynhaliaeth wedi'u hawlio, gan 22 o Aelodau, gyda chyfartaledd o £19.41.
- Yn ystod 2024-25, hawliwyd cyfanswm o £937.24 mewn costau cynhaliaeth, gan 24 Aelod ar gost gyfartalog o £18.38.

**52. Felly, penderfynodd y Bwrdd beidio â gosod rheolau ychwanegol ond mae'n atgoffa'r Aelodau o'r egwyddorion budd personol, rhesymolrwydd a gwerth am arian ym Mhennod 1 wrth wneud hawliadau am gynhaliaeth. Bydd y Bwrdd yn adolygu'r darpariaethau cynhaliaeth yn ystod y Seithfed Senedd.**

**53.**Nododd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig fod heriau o hyd o ran dod o hyd i lety addas o fewn y terfyn hawlio dros nos ac nad oedd y terfyn arfaethedig newydd yn ddigonol i fynd i'r afael â'r mater hwn.

**54.**Llywiwyd cynigion y Bwrdd gan ddadansoddiad annibynnol o'r farchnad rhentu leol, gan gynnwys costau rhentu misol ar gyfer fflatiau un a dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd, yn ogystal â chostau rhentu'r Aelodau presennol:

- Ym mis Hydref 2025, hysbysebwyd 60.7% o eiddo un ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd (ac eithrio'r 10% o fflatiau 'moethus' drutaf) ar y lwfans £1,075 y mis, neu o dan hynny, yn ystod y cyfnod hwn.
- Yn ystod y flwyddyn ariannol ddiwethaf, hawliodd 18 Aelod am eiddo ym Mae Caerdydd, gyda 14 ohonynt yn hawlio llai na'r terfyn misol a 4 yn hawlio mwy na'r terfyn misol (ac felly'n talu'r costau ychwanegol eu hunain).

**55.** Felly, mae'r Bwrdd o'r farn bod digon o argaeledd a dewis o ystod o eiddo un ystafell wely a dwy ystafell wely yn ardal Bae Caerdydd ac mae'r Bwrdd yn adolygu'r costau'n flynyddol.

**56.** Cytunodd Grŵp Plaid Cymru â'r codiadau arfaethedig ond nododd y dylid eu hadolygu'n barhaus; cytunodd y Grŵp hefyd â dileu costau Opsiwn B a chroesawu'r hyblygrwydd ychwanegol ar gyfer adolygu achosion ffiniol. Cytunodd Grŵp Plaid Cymru hefyd â'r cynnydd mewn cyfraddau cynhaliaeth.

**57.** Mewn un cyflwyniad, nodwyd y gallai dileu Opsiwn B gael effaith negyddol ar Aelodau presennol a/neu Aelodau yn y dyfodol sydd â theulu a chyfrifoldebau gofalu. Nododd yr ymateb hefyd fod hawliadau o dan Opsiwn B yn is ac yn cynnig gwell gwerth am arian o'i gymharu ag Opsiwn A (lle gallai Aelodau rentu eiddo yn ogystal â chostau nad ydynt yn gostau rhent/cyfalaf).

**58.** Ystyriodd y Bwrdd yn ofalus yr adborth a goblygiadau'r cynnig i ddileu Opsiwn B ar gyfer Aelodau sydd â theuluoedd neu gyfrifoldebau gofalu eraill, fel y nodir yn ei atodiad i'r Asesiad Effaith Cydraddoldeb.

**59.** Daeth y Bwrdd i'r casgliad y gallai dileu Opsiwn B gael effaith negyddol ar Aelodau sydd â chartref yng Nghaerdydd ar eu traul eu hunain a gallai gael effaith anghymesur ar y rhai â nodweddion gwarchodedig penodol. Fodd bynnag, mae'n ofynnol i'r Bwrdd gydbwyso'r amcan statudol ynghylch 'sicrhau uniondeb' a'r egwyddor graidd o ran taliadau na ddylai fod unrhyw fudd personol mewn perthynas ag unrhyw hawliadau o dan y Penderfyniad ac na ddylai Aelodau wneud hawliadau sy'n arwain at fudd ariannol personol amhriodol, neu ganfyddiad o fudd ariannol personol amhriodol, uniongyrchol neu anuniongyrchol, ag amcanion statudol

eraill, gan gynnwys gwerth am arian a darparu adnoddau digonol i alluogi Aelodau i arfer eu swyddogaethau, fel y nodir yn adran 3(2) o'r Mesur.

**60.** Mae effaith dileu Opsiwn B yn cael ei lliniaru o ystyried bod cefnogaeth amgen yn parhau i fod ar gael i Aelodau hawlio am lety dros nos drwy'r Penderfyniad, gan gynnwys costau ychwanegol i'r rhai sy'n gofalu am ddibynyddion a chostau eithriadol, lle bo'n berthnasol.

**61.** Fodd bynnag, gwnaeth y Bwrdd gydnabod goblygiadau ariannol ei benderfyniad i unrhyw Aelod a oedd ar hyn o bryd yn hawlio ad-daliad costau o dan Opsiwn B a'r heriau a'r aflonyddwch i deulu Aelod, pe bai angen gwneud trefniadau llety amgen ar fyr rybudd. Yn unol â chynsail blaenorol yn y Penderfyniad, cytunodd y Bwrdd i ddarparu ar gyfer trefniadau trosiannol i unrhyw Aelod a oedd yn hawlio Opsiwn B ar ddiwedd y Chweched Senedd tan ddiwedd y Seithfed Senedd.

**Penderfyniad: Costau a Darpariaethau**

O ddechrau'r Seithfed Senedd:

- Ni fydd Aelodau bellach yn gallu hawlio treuliau mewn perthynas â chartref yn ardal Caerdydd a ddarparwyd ar gost yr Aelod ei hun (Opsiwn B o dan y Penderfyniad ar gyfer 2025-26).

- Mae adran newydd 4.4 wedi'i mewnosod, sy'n nodi 'Pan oedd Aelod, ar ddiwedd y Chweched Senedd, yn hawlio am eiddo o dan Opsiwn B o Bennod 4 o'r Penderfyniad a oedd mewn grym ar y pryd, caiff yr Aelod hawlio'r costau a nodir yn adran 4.3.2(b) i (g) mewn perthynas â'r un eiddo tan ddiwedd y Seithfed Senedd.'

- Y gyfradd uchaf ar gyfer llety dros nos yn y Deyrnas Unedig (Caerdydd a mannau eraill, adran newydd 4.7) bydd £121.

- Y gyfradd llety dros nos uchaf yn Llundain bydd £230

- Y gyllideb llety dros nos i Aelodau'r ardal fewnol bydd £726

- Bydd cyfraddau cynhaliaeth yn £30 am unrhyw gyfnod o 24 awr

- Y swm blynyddol uchaf ar gyfer llety dros nos yng Nghaerdydd gan Aelodau y mae eu prif gartrefi yn yr Ardal Allanol bydd £13,320 (yn seiliedig ar uchafswm o £1,110 y mis).

- Bydd costau ychwanegol i Aelodau â chyfrifoldebau gofalu hyd at £3,870 ar gyfer y dibynnydd cyntaf a hyd at £1,290 ar gyfer pob dibynnydd ychwanegol, hyd at uchafswm o ddau ddibynnydd ychwanegol.

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach.

Ailddrafftio adran 4.8 ‘Cynhaliaeth’ i egluro y gellir gwneud hawliadau wrth deithio a/neu aros mewn llety dros nos, ac mae’r adran newydd 4.11.2 yn egluro bod y cyfnod o 24 awr yn dechrau ar ddechrau unrhyw daith.

Diffinnir 'cynhaliaeth' yn adran Dehongli Pennod Un fel 'bwyd a diodydd di-alcoholig'.

Mae adran newydd 4.9.2 wedi'i mewnosod i egluro bod cynhaliaeth hefyd yn berthnasol i staff cymorth Aelodau ac i staff cymorth Grŵp ac mae adran newydd 4.10 wedi'i mewnosod i egluro

y gall Aelod neu arweinydd Grŵp yn y Senedd hawlio costau llety a chynhaliaeth y tu allan i'r Deyrnas Unedig ar gyfer staff cymorth o dan Bennod 5.

Mae adrannau sy'n ymwneud â llety dros nos a/neu gynhaliaeth yn cyfeirio at 'o fewn y Deyrnas Unedig', ac adran newydd 4.10, wedi'u mewnosod i wahaniaethu'n gliriach rhwng trefniadau 'y tu allan i'r Deyrnas Unedig'.

# Pennod 5: Teithio

### Cefndir

**62.** Ni chynigiodd y Bwrdd unrhyw newidiadau polisi i'r bennod hon ond gwnaeth gynnwys sawl newid drafftio yn unol â symleiddio, yn benodol dileu sawl adran yn ymwneud ag egwyddorion a oedd yn efelychu'r egwyddorion craidd a nodir ym Mhennod Un.

**63.** Ymgynghorodd y Bwrdd ar gynnig sy'n ymwneud â theithio o dan Bennod 7: Staffio a gynigiodd, os bydd Aelod yn symud swyddfa o ganlyniad i'r newidiadau i etholaethau'r Senedd ar gyfer y Seithfed Senedd, y gall unrhyw aelodau staff yr effeithir arnynt hawlio costau cymudo ychwanegol (y costau hynny sy'n ychwanegol at yr hyn yr oeddent yn ei dalu i gymudo i leoliad blaenorol y swyddfa) am gyfnod o dri mis.

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**64.** Cafwyd sylwadau cyfyngedig ar y bennod ddrafft ddiwygiedig, fodd bynnag, croesawodd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig y cynnig i ddileu'r terfyn ar nifer y teithiau ar gyfer staff etholaethol i ac o Gaerdydd.

**65.** Roedd un ymateb a gyflwynwyd yn croesawu'r cynigion ar gyfer cymorth i staff yr effeithir arnynt gan newidiadau i leoliad swyddfa'r etholaeth.

**66.** Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd y newid yn y cyfeiriad at deithio rhyngwladol a'r gofyniad bod Aelodau'n hawlio 'pris dwyffordd safonol', gan nodi nad yw teithiau rhyngwladol 'yn tueddu i gael eu gwerthu gyda'r disgrifiad 'safonol''. O ganlyniad, byddai geiriad amgen neu ychwanegol yn helpu i'w wneud yn fwy eglur.

### Penderfyniad: Y Cynnig Polisi

Cytunodd y Bwrdd i ddarparu ar gyfer hawliadau am gostau cymudo ychwanegol dros dro ar gyfer staff cymorth yr effeithiwyd arnynt gan swyddfa etholaeth yn symud lleoliad.

### Canlyniad: Newidiadau drafftio

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach.

Mae'r Diben yn cynnwys mewnosod 'cynhaliaeth' ac adrannau newydd i egluro y gellir hawlio cynhaliaeth gan Aelodau neu eu staff cymorth wrth deithio.

Mae cyfeiriad at bris dwyffordd 'safonol' ar gyfer teithio rhyngwladol wedi'i ddileu o adran 5.2.1 (a); fodd bynnag, byddai disgwyl i Aelodau wneud hawliad teithio sy'n gyson â'r egwyddorion rhesymol a gwerth am arian ym Mhennod 1 a chyflwyno achos busnes ymlaen llaw, fel y bu yn ystod y Chweched Senedd.

Mae adran 5.6 newydd ar gostau cymudo ychwanegol staff cymorth oherwydd newidiadau etholaethol wedi'i mewnosod i adlewyrchu penderfyniad y Bwrdd i gyflwyno taliadau o'r fath.

Mae adrannau gwreiddiol 5.6.3 a 5.7.3 sy'n ymwneud â pha gyllidebau y byddai unrhyw gostau sy'n gysylltiedig â staff yn cael eu hawlio ohonynt wedi'u cyfuno a'u symud i adran 5.10 ar ddiwedd y bennod (sy'n gyson â phenodau eraill yn y Penderfyniad).

# Pennod 6: Gwaith Etholaethol

## Cefndir

**67.** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pennod wedi'i hailddrafftio a'i hailenwi ('Swyddfa Etholaethol ac Ymgysylltu' ar hyn o bryd). Ymhlith y newidiadau drafftio roedd dileu yr 'egwyddorion swyddfeydd' a nodir ar hyn o bryd yn adran 6A.1 o'r Penderfyniad, gan fod y rhain yn efelychu'r egwyddorion cyffredinol ym Mhennod 1 neu ofynion statudol perthnasol yn fras.

**68.** Roedd y bennod ddrafft hefyd yn cynnwys cyfeiriadau troednodyn newydd at y Rheolau perthnasol ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd, yn benodol Rheolau 7 ac 8, a oedd yn atgoffa'r Aelodau o'r rheolau ar drin etholwyr yn gyfartal a chyfathrebu ac ymgysylltu ag etholwyr. Hefyd, nododd y cynnydd 50% a gytunwyd yn flaenorol i'r terfyn trosglwyddo cyllideb ('trosglwyddo arian' yn flaenorol) i'r gyllideb Staffio (25% ar hyn o bryd).

**69.** Roedd ymgynghoriad y Bwrdd hefyd yn cynnwys cynigion polisi penodol i

- Uwchraddio'r gyllideb Gwaith Etholaethol gwerth £27,430 yn ôl cyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026.
- Uwchraddio'r gyllideb Cychwyn Swyddfa (£6,500) a chyllideb Adnewyddu Swyddfa (£2,500) yn unol â chyfradd Mynegai Prisiau Defnyddwyr Ionawr 2026.
- Dileu'r ddarpariaeth i Aelodau hawlio costau band eang yn eu prif gartref o ddechrau'r Seithfed Senedd.

## Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**70.** Cytunodd Grŵp Plaid Cymru â'r newidiadau arfaethedig.

**71.** Nododd Comisiynydd y Gymraeg:

> "…mae'r Cynllun [Ieithoedd Swyddogol] yn gosod disgwyliad i unrhyw ddeunyddiau a ariennir gan y Comisiwn neu'r Bwrdd Taliadau gael eu cynhyrchu'n ddwyieithog, ac felly yn berthnasol iawn i'r bennod yma. Fel rhan o'r bennod rydych yn cyfeirio mewn troednodyn at bwysigrwydd cydymffurfio gyda Rheolau a Chanllawiau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd (y Rheolau)…dylai rheol 9 y Rheolau, sef cydymffurfiaeth gyda'r Cynllun, gael ei ychwanegu at y troedyn yma hefyd er mwyn atgoffa Aelodau o'u dyletswyddau ieithyddol."

**72.** Fel y nodwyd yn Asesiad y Bwrdd o'r Effaith ar y Gymraeg, mae Cynllun Ieithoedd Swyddogol y Chweched Senedd[3] (Safon 10) yn gosod dyletswydd ar Aelodau i sicrhau bod yn rhaid i unrhyw ddeunyddiau sy'n cael eu llunio gydag arian cyhoeddus gael eu cyhoeddi'n ddwyieithog a bod cymorth a chostau cyfieithu ar y pryd a chyfieithu yn cael eu darparu gan Gomisiwn y Senedd. Caiff Aelodau hefyd hawlio rhai costau cyfieithu a chyfieithu ar y pryd drwy Bennod 6 o'r Penderfyniad a gall Aelodau ddefnyddio costau cychwyn y swyddfa neu adnewyddu cyllidebau i greu arwyddion dwyieithog newydd.

**73.** Felly cytunodd y Bwrdd y dylid cynnwys cyfeiriadau at Reol 9 (o'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd) a dyletswyddau'r Aelodau o dan Safon 10 (o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol) yn y troednodyn ym Mhennod 6 o'r Penderfyniad.

**74.** Nododd y Bwrdd y gallai'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol gael ei ddiweddaru yn y Seithfed Senedd a bydd y Bwrdd yn parhau i adolygu'r cyfeiriadau perthnasol i sicrhau eu bod yn adlewyrchu'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol diweddaraf.

**Penderfyniad: Costau**

O ddechrau'r Seithfed Senedd:

- Y gyllideb Gwaith Etholaethol fydd £28,250
- Bydd y gyllideb Cychwyn Swyddfa a'r gyllideb Adnewyddu Swyddfa yn £6,695 a £2,575 yn y drefn honno.
- Ni fydd Aelodau bellach yn gallu hawlio costau band eang yn eu prif gartref.

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach.

Mae cyfeiriadau at Reol 9 o'r Rheolau ar Ddefnyddio Adnoddau'r Senedd a dyletswyddau'r Aelodau fel y'u nodir yn Safon 10 o'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol wedi'u mewnosod yn y troednodyn i atgoffa'r Aelodau o statws y Gymraeg a'u dyletswyddau wrth ddefnyddio adnoddau Gwaith Cymunedol.

[3] https://senedd.cymru/media/01lmemsk/gen-ld15324-w.pdf

Mae adrannau gwreiddiol 6.6.2 a 6.7.4 sy'n ymwneud â pha gyllidebau y byddai unrhyw gostau penodol yn cael eu hawlio ohonynt wedi'u cyfuno a'u symud i adran newydd 6.8 ar ddiwedd y bennod (sy’n gyson â phenodau eraill yn y Penderfyniad).

# Pennod 7: Staff cymorth

## Cefndir

**75.** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pennod wedi’i hailstrwythuro a’i symleiddio i roi mwy o eglurder. Roedd y newidiadau'n cynnwys cyfuno nifer o 'reolau' presennol sy'n ymwneud â chyflogi staff (ac sy'n helpu i ddarparu cysondeb ac amddiffyniad i staff) mewn adran 7.1 newydd ar ddechrau'r bennod a chael gwared ar ddyblygu sy'n ymwneud â theithio a llety dros nos staff.

**76.** Nododd y ddogfen, o ganlyniad i benderfyniadau blaenorol y Bwrdd ynghylch cyflogau staff ym mis Gorffennaf 2025, mai Cyllideb Staffio'r Aelodau ar gyfer y Seithfed Senedd fydd £148,382.

**77.** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys sawl cynnig polisi.

- Cyflwyno Taliad Dyletswyddau Ychwanegol newydd i staff sy’n ymgymryd â chyfrifoldebau dros dro ychwanegol
- Trefniadau ar gyfer cyfnodau secondiad tymor byr rhwng swyddfeydd yr Aelodau a/neu Swyddfeydd Grwpiau
- Cymorth ychwanegol i staff yr effeithir arnynt gan adleoli swyddfa Aelod oherwydd newidiadau i’r etholaeth, gan gynnwys hawl i dâl dileu swydd lle bo angen

## Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a’u hystyried

### Fframwaith Dosbarthu Swyddi

**78.** Cadarnhaodd y Bwrdd ei benderfyniad ar y Fframwaith Dosbarthu Swyddi, gan gynnwys cyflogau staff cymorth ac uwchraddio blynyddol, ym mis Gorffennaf 2025 a chytunodd i ymestyn y dyddiad cau ar gyfer gweithredu i 30 Mehefin 2026 ym mis Ionawr. Er nad oedd y penderfyniad hwn yn rhan o'r broses ymgynghori, roedd sawl ymateb yn rhoi barn ar y fframwaith.

**79.** Nododd Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig ei fod yn parhau i gredu’r hyn a ganlyn:

> “...the new job framework and pay grading system does not provide sufficient flexibility for Members. We also believe it doesn’t address the issue of recruiting senior staff with experience of work in other parliaments. We continue to believe that existing staff should have the option to remain on current arrangements, and that there should be provision for appointments via an extenuating circumstances route.”

**80.** Nododd Grŵp Plaid Cymru hefyd efallai nad yw parhau â chyllideb y swyddfa yn seiliedig ar gyflogau 3 aelod o staff cymorth yn darparu'r hyblygrwydd sydd ei angen ar Aelodau o ran rolau a chyfrifoldebau staff ar lefel briodol i gynorthwyo â dyletswyddau Aelodau oherwydd cyfyngiadau cyllidebol.

**81.** Amcanion y Bwrdd yw gosod fframwaith cyflogaeth sy'n llywodraethu sut y gellir defnyddio arian cyhoeddus gyda gonestrwydd a hyrwyddo gwerth am arian, gan geisio cydbwysedd priodol rhwng hyblygrwydd i Aelodau, sicrhau bod cyflogau staff cymorth yn adlewyrchu eu lefel cyfrifoldeb yn deg, ac annog cysondeb o ran cyflogau a chydnabyddiaeth gan Aelodau, ac osgoi anghydraddoldebau cyflog annheg ymhlith y rhai ar yr un lefel swydd. Barn y Bwrdd yw bod y fframwaith newydd, yn enwedig o ystyried y cwmpas ar gyfer rolau 'hybrid', yn rhoi digon o hyblygrwydd i'r Aelodau.

**82.** Ystyriodd y Bwrdd hefyd amrywiaeth o dystiolaeth ac adborth wrth nodi ei gynigion ar gyfer y gyllideb staffio ym mis Ebrill 2025[4]; ei farn oedd bod y gyllideb staffio yn dal i fod yn ddigonol ond y byddai'n adolygu cyllideb staffio'r Aelodau ar adeg briodol yn y Seithfed Senedd pan fydd goblygiadau busnes y Senedd a newidiadau i etholaethau yn ogystal â newidiadau i gymorth Comisiwn y Senedd i Aelodau a chymorth grwpiau gwleidyddol ar ofynion cymorth staffio'r Aelodau yn cael eu deall yn well.

**83.** Ailadroddodd Grŵp Plaid Cymru ei siom hefyd y bydd staff Band 3 yn cael gostyngiad mewn pwyntiau cyflog a phwynt cyflog uchaf is a phwysleisiodd bwysigrwydd rôl staff ym Mand 3.

**84.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y rôl bwysig y mae staff Band 3 yn ei chyflawni, ar draws pob teulu swyddi. Fel y nodwyd yn flaenorol, mae cyflogau yn y fframwaith newydd wedi cael eu meincnodi'n annibynnol yn erbyn marchnad swyddi Cymru, a gadarnhaodd fod y cyflog uchaf ym Mand 3 yn uwch na'r gyfradd farchnad gymharol ar gyfer rolau tebyg. Mae Band 3 yn y fframwaith newydd yn cynnwys cynnydd cyflymach, cynyddrannau cyflog uwch a chyflogau pwynt cyflog uwch o'i gymharu â phwyntiau cyflog Band 3 1-4 ar hyn o bryd. Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr effaith y bydd hyn yn ei chael ar y rhai sydd ar ben uchaf y Band. Mae wedi ceisio lliniaru'r effaith bosibl ar staff yr effeithir arnynt gan bennu amddiffyniad cyflog o hyd at ddwy flynedd ar gyfer staff sydd ar hyn o bryd yn gweithio ar bwynt cyflog 5 ac sy'n parhau ar Fand 3 yn dilyn yr adolygiad.

[4] https://bwrddtaliadau.cymru/media/uvrb5c0t/welsh-spring-consultation-310325-1640.pdf

**85.** Gwnaeth Comisiynydd y Gymraeg sylw nad oedd cyfeiriad at y Gymraeg na'r Cynllun Ieithoedd Swyddogol yn y Penderfyniad na'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi. Nododd yr ymateb y byddai'r Comisiynydd yn disgwyl '…bod sgiliau yn y Gymraeg yn nodwedd hollbwysig ar gyfer nifer o swyddi staff fydd yn gweithio gydag Aelodau'r Senedd'.

**86.** Cododd Cymdeithas yr Iaith sylwadau tebyg, ac awgrymodd fod yn 'rhaid' i'r Penderfyniad sicrhau, wrth recriwtio i rolau newydd, fod yn rhaid i Aelodau asesu anghenion ieithyddol pob swydd a'i dynodi fel un lle mae sgiliau Cymraeg Cwrteisi fan lleiaf yn ofynnol, Dadleuodd hefyd fod yn rhaid i Aelodau asesu ac adrodd yn flynyddol ar sgiliau Cymraeg eu staff a dylid cynnig hyfforddiant ar y Gymraeg i staff yn ystod oriau gwaith.

**87.** Mae'r Bwrdd yn cydymffurfio â Chynllun Iaith Swyddogol Comisiwn y Senedd[5] ac yn gweithredu'n ddwyieithog wrth ohebu, ymgysylltu neu gyhoeddi deunyddiau. Wrth wneud hynny, mae'r Bwrdd yn cydnabod pwysigrwydd y Gymraeg fel iaith gyfartal a swyddogol yn y Senedd.

**88.** Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi bod gan staff cymorth yr Aelodau fynediad eisoes at wersi Cymraeg a ddarperir gan Gomisiwn y Senedd yn ystod oriau gwaith.

**89.** Fodd bynnag, nid yw'r Bwrdd yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ac ar ben hynny, fel y nodir yn yr Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg, mae swyddogaethau'r Bwrdd yn ymwneud â darparu adnoddau i Aelodau sydd wedi'u diffinio a'u cyfyngu mewn statud ac nid oes ganddo bwerau i osod gofynion na safonau'r Gymraeg ar Aelodau na'u staff. Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi nad yw Aelodau, fel unigolion, yn ddarostyngedig i Safonau'r Gymraeg, ac eithrio'r dyletswyddau a nodir yng Nghynllun Ieithoedd Swyddogol y Senedd.

**90.** Felly mae'r Bwrdd wedi dod i'r casgliad nad yw'n gallu nodi gofynion o ran y Gymraeg ar Aelodau yn y Penderfyniad nac mewn fframweithiau cysylltiedig fel y Fframwaith Dosbarthu Swyddi.

**91.** Ar ben hynny, mae'r Fframwaith Dosbarthu Swyddi yn gosod meini prawf sy'n berthnasol pan fydd Aelodau'n asesu'r radd benodol neu'r Teulu Swyddi ar gyfer rôl benodol, nid yw wedi'i gynllunio i ddisgrifio'r ystod o brofiad, sgiliau na chymwyseddau a allai fod yn ofynnol ar gyfer rolau penodol. Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai Aelodau asesu bod rôl yn gofyn am hyfedredd penodol yn y Gymraeg, ond ni fyddai hyfedredd iaith yn ffactor sy'n effeithio ar

[5] https://senedd.cymru/media/01lmemsk/gen-ld15324-w.pdf

raddio rôl yn y fframwaith dosbarthu, gan y gellir ystyried bod rolau ar unrhyw fand cyflog, neu bob un ohonynt, yn gofyn am sgiliau o ran y Gymraeg.

**92.** Mae'r Bwrdd yn nodi bod Comisiwn y Senedd yn defnyddio matrics sgiliau iaith ac yn cytuno y dylai Aelodau ystyried sgiliau iaith y rôl wrth recriwtio staff fel mater o arfer da. Fodd bynnag, ni all y Bwrdd osod gofynion o'r fath ac mae Comisiwn y Senedd yn darparu canllawiau recriwtio a disgrifiadau swyddi templed ar gyfer staff cymorth i Aelodau. Mae'r Bwrdd wedi cael gwybod bod Comisiwn y Senedd yn ystyried cynnwys cyfeiriadau at sgiliau iaith Gymraeg mewn canllawiau recriwtio diwygiedig a thempledi disgrifiadau swyddi ar gyfer y Seithfed Senedd.

### Sylwadau eraill

**93.** Awgrymodd un ymateb y dylai'r Penderfyniad nodi y dylai taliadau cyflog ymlaen llaw dewisol fod ar gael i staff cymorth cyn y Nadolig.

**94.** Nododd y Bwrdd fod y Penderfyniad (yn adran 7.2.7) eisoes yn darparu ar gyfer un taliad cyflog ymlaen llaw y flwyddyn.

### Taliad dyletswyddau ychwanegol newydd i staff sy’n ymgymryd â chyfrifoldebau ychwanegol

**95.** Cefnogodd grwpiau Plaid Cymru a Llafur Cymru y cynnig.

### Trefniadau ar gyfer cyfnodau secondiad tymor byr rhwng swyddfeydd yr Aelodau a/neu Swyddfeydd Grwpiau

**96.** Croesawodd grŵp Plaid Cymru y cynnig.

**97.** Cytunodd Grŵp Llafur Cymru â'r cynnig a chysylltodd y cynnig hefyd â secondiadau allanol ac awgrymodd y dylai Comisiwn y Senedd lunio canllawiau cynhwysfawr a chyson.

**98.** Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fod yr Aelodau yn gyflogwyr ar wahân ac felly y dylid dileu'r cyfeiriad at secondiadau 'mewnol'. Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd hefyd sawl maes y gellid ei gynnwys mewn unrhyw gytundeb rhwng Aelodau.

**99.** Cytunodd y Bwrdd â sylwadau'r Swyddog Cyfrifyddu, gan nodi y gallai unrhyw ganllawiau ynghylch cytundeb rhwng Aelodau gael eu llunio gan Gomisiwn y Senedd.

### Cymorth ychwanegol i staff yr effeithir arnynt gan adleoli swyddfa Aelod oherwydd newidiadau etholaethol

**100.** Roedd grŵp Llafur Cymru yn cytuno â’r cynnig.

**101.** Croesawodd Grŵp Plaid Cymru y cynnig ond nododd hefyd y dylai Aelodau mewn sefyllfaoedd o'r fath ystyried archwilio patrymau / oriau gwaith a gweithio gartref os yw'n briodol.

**102.** Gofynnodd y Bwrdd hefyd am gyngor cyfreithiol allanol ynghylch goblygiadau'r cynnig ar gyfer taliadau diswyddo. Cadarnhaodd y cyngor, o dan adran 139 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996, y byddai adleoli swyddfa etholaeth yn bodloni'r prawf ar gyfer diswyddo lle mae'r cyflogwr wedi rhoi'r gorau i gynnal y busnes hwnnw yn y lle yr oedd y gweithiwr yn cael ei gyflogi felly, neu'n bwriadu rhoi'r gorau i hynny.

**103.** Ar ben hynny, nododd y cyngor cyfreithiol nad yw rhesymoldeb pellter (fel y'i cynigiwyd yn wreiddiol yn yr ymgynghoriad) yn uniongyrchol berthnasol o ran a fyddai gweithiwr yn atebol am daliad diswyddo ai peidio, ond dim ond ystyriaeth ydyw o ran a oeddent wedi gwrthod cynnig o waith amgen addas yn afresymol.

**104.** Fel y nodwyd yn yr adran sy'n ymwneud â Phennod 5 uchod, bydd y Bwrdd yn mewnosod darpariaethau ar gyfer costau cymudo ychwanegol staff cymorth (o ganlyniad i adleoli swyddfa) yn y Penderfyniad.

**105.** Yng ngoleuni'r cyngor cyfreithiol, cytunodd y Bwrdd y dylid ehangu'r geiriad perthnasol sy'n ymwneud â diswyddo yn y Penderfyniad i gyfeirio at amgylchiadau ehangach diswyddo yn unol ag adran 139 o'r Ddeddf Hawliau Cyflogaeth, er mwyn egluro bod taliadau diswyddo o ganlyniad i adleoli swyddfa yn ganiataol.

**106.** Ni fydd y Bwrdd yn nodi meini prawf fel 'pellter rhesymol' yn benodol yn y Penderfyniad, gan y bydd adleoli swyddfeydd a'r addasiadau, y cymorth ac unrhyw benderfyniad ynghylch diswyddiadau posibl yn fater i'r Aelodau fel cyflogwyr unigol gan ystyried amgylchiadau personol penodol unrhyw weithiwr yr effeithir arno ac ystyried trefniadau amgen.

## Darpariaeth ar gyfer Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth

**107.** Ar hyn o bryd mae Comisiwn y Senedd yn prynu Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth sy'n cwmpasu pob Aelod. Mae Comisiwn y Senedd wedi hysbysu'r Bwrdd y bydd y ddarpariaeth yswiriant hon yn dod i ben ar 30 Mehefin 2026.

**108.** Ni chafodd y mater hwn ei gynnwys yn y ddogfen ymgynghori gan fod y Bwrdd wedi ceisio rhagor o wybodaeth am ddull Comisiwn y Senedd.

**109.** Mae Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth yn darparu yswiriant i gyflogwyr ar gyfer hawliadau sy'n deillio o weithredoedd anghywir honedig yn y broses gyflogi, gan gynnwys gwahaniaethu, aflonyddu a diswyddo ar gam.

**110.** Mae polisïau yswiriant o'r fath yn rhoi amddiffyniad ariannol i Aelodau fel cyflogwyr pe bai hawliad yn cael ei wneud yn erbyn Aelod.

**111.** Felly cytunodd y Bwrdd i ddarparu i Aelodau hawlio Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth o dan y Penderfyniad, ond ni fyddai'r costau'n cael eu didynnu o gyllideb staffio'r Aelodau.

## Dyddiad terfyn estynedig ar gyfer gweithrediad y fframwaith cyflogau a graddfeydd staff newydd ar gyfer staff cymorth

**112.** Ymgynghorodd y Bwrdd rhwng 22 Rhagfyr 2025 a 16 Ionawr 2026[6] i ymestyn y dyddiad terfyn ar gyfer gweithredu fframwaith cyflogau a graddfeydd staff newydd ar gyfer staff cymorth.

**113.** Cytunodd y Bwrdd ar 21 Ionawr 2026[7] y byddai'r dyddiad terfyn ar gyfer gweithredu ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd (h.y. y rhai a oedd yn Aelodau yn y Chweched Senedd) yn cael ei ymestyn i 30 Mehefin 2026.

**114.** Mae penderfyniad y Bwrdd wedi'i adlewyrchu mewn gwelliannau dilynol i adran 1.1.3 (a throednodyn yn adran 7.1.1).

**Penderfyniad: Cynigion Polisi**

Cytunodd y Bwrdd y byddai'r darpariaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd:

- Mewnosod cyfeiriadau yn adran 1.1.3 a throednodyn yn adran 7.1.1 bod Pennod 7 o Benderfyniad 2025-26 (Rhif 2) yn parhau mewn grym tan 30 Mehefin 2026 ar gyfer Aelodau sy'n dychwelyd a'u staff, neu nes bod yr aelod o staff wedi'i gyflogi yn unol â Phennod 7 o Benderfyniad y Seithfed Senedd (pa un bynnag sydd gyntaf).

- mewnosod adrannau newydd 7.2.4 a 7.2.5 sy'n nodi y gall Aelodau hawlio costau talu cynnydd cyflog 5% i aelod staff, sydd wedi pasio ei gyfnod prawf, am gyfnod o hyd at 6 mis lle mae'n cyflawni dyletswyddau ychwanegol ar radd uwch. Bydd y taliad cyfrifoldeb ychwanegol hwn yn bensiynadwy.

- mewnosod adran 7.9 newydd yn nodi y gall Aelodau neu Arweinwyr Grwpiau wneud trefniadau ar gyfer secondiadau staff, hyd at 6 mis, rhwng swyddfeydd Aelodau a/neu

[6] https://bwrddtaliadau.cymru/media/4tglgol0/2026-01-21-decision-letter-consultation-report-cy.pdf
[7] https://dogfennauaosodwyd.senedd.cymru/gen-ld17782-cy.pdf

Swyddfeydd Grŵp. Rhaid i staff fod wedi pasio eu cyfnod prawf, a byddai angen cytundeb ysgrifenedig safonol rhwng y ddau sy'n cyflogi.

### Canlyniad: Newidiadau drafftio

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach. Mae adrannau ar lety dros nos, teithio a chynhaliaeth (a nodwyd ar wahân yn y Penderfyniad drafft) wedi'u cyfuno'n adran fyrrach 7.3.

Mae adran 7.9 Diswyddo Staff Cymorth wedi'i diwygio, i egluro bod ystyr diswyddo fel y'i nodir yn adran 139 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac felly gall fod yn berthnasol o ganlyniad i adleoli man cyflogaeth.

Mae adran 7.11 newydd wedi'i mewnosod i ddarparu y gall Aelodau hawlio am Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth.

Mae adran wreiddiol 7.4.4 wedi'i chyfuno â chyfeiriadau tebyg eraill ynghylch pa gyllidebau y byddai unrhyw gostau penodol yn cael eu hawlio ohonynt a'u symud i adran newydd 7.12 ar ddiwedd y bennod; mae'r dull hwn yn gyson â phenodau eraill yn y Penderfyniad.

Mae cyfeiriad yn Atodiad B 'Telerau i'w cynnwys yng nghontractau cyflogaeth staff cymorth' wedi cael ei egluro i nodi nad yw'r hawliau a nodir e.e. cyfnodau o absenoldeb salwch neu absenoldeb rhiant, yn rhestr lawn, ond y rhai sy'n mynd y tu hwnt i'r isafswm statudol, a bod yr hawliadau a restrir yn cynnwys hawliau statudol.

# Pennod 8: Cymorth i Grwpiau yn y Senedd

### Cefndir

**115.** Roedd yr ymgynghoriad yn cynnwys pennod wedi'i hailstrwythuro a'i symleiddio i roi mwy o eglurder gyda theitl y bennod yn cael ei newid i 'Cymorth i Grwpiau' o'r 'Cymorth i Bleidiau Gwleidyddol' presennol.

**116.** Roedd y bennod wedi'i hailddrafftio i gael gwared ar ddyblygu ac yn croesgyfeirio materion staffio grŵp at adrannau perthnasol ym Mhennod 7 Staffio.

**117.** Roedd yr ymgynghoriad hefyd yn ceisio barn am gynigion polisi ychwanegol, a oedd yn cynnwys:

- Egluro'r amgylchiadau a'r gofynion pan fydd Grŵp yn cael gwasanaethau allanol
- Eglurhad, lle caiff swydd staff cymorth ei dileu yn dilyn newid arweinydd grŵp, y bydd taliadau o'r fath yn cael eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**118.** Cytunodd Grŵp Plaid Cymru â'r cynnig i egluro trefniadau ar gyfer gwasanaethau allanol ond gofynnodd i Gomisiwn y Senedd ddarparu canllawiau i Grwpiau i sicrhau cysondeb.

**119.** Mynegodd Grŵp Plaid Cymru bryder ynghylch y cynnig y byddai costau diswyddo staff grŵp yn dilyn newid arweinydd grŵp yn cael eu didynnu o gyllideb y Grŵp, gan nodi nad yw'n anghyffredin i grwpiau gwleidyddol newid arweinydd mewn unrhyw system wleidyddol, a dywedodd bod y Bwrdd ei hun yn cydnabod y gallai arweinydd grŵp sy'n dod i mewn ddymuno newid personél allweddol neu ailstrwythuro swyddfa. Mynegodd y Grŵp bryder na ddylai arweinydd Grŵp newydd fod o dan anfantais o ran y gyllideb sydd ar gael iddo o ganlyniad i newidiadau o'r fath, os nad oes newid ym maint y Grŵp.

**120.** Mae'r Bwrdd yn cydnabod y gallai arweinydd Grŵp newydd fod eisiau newid personél allweddol yn swyddfa'r grŵp. Fodd bynnag, bwriad y Bwrdd yw annog arweinwyr Grwpiau i gadw cyflogaeth y rhan fwyaf o staff y grŵp, lle bo modd, gyda'r bwriad o leihau'r risg a'r ansicrwydd i staff y grŵp yn gyffredinol a sicrhau gwerth am arian. Barn y Bwrdd yw y dylai Arweinwyr Grwpiau fod â digon o hyblygrwydd cyllidebol i wneud unrhyw newidiadau o'r fath heb gael effaith sylweddol ar y capasiti a'r adnoddau staffio ehangach. Mae'r Bwrdd hefyd yn nodi y gellir gwneud ceisiadau am gostau eithriadol lle gallai penderfyniadau diswyddo a chyfyngiadau cyllidebol effeithio ar gyflogaeth staff eraill y grŵp.

**Penderfyniad: Cynigion Polisi**

Cytunodd y Bwrdd y bydd y darpariaethau canlynol yn cael eu cynnwys yn y Penderfyniad ar gyfer y Seithfed Senedd:

- Eglurhad o'r amgylchiadau a'r gofynion pan fydd Grŵp yn cael gwasanaethau allanol, fel y nodir yn adrannau 8.1.2 ac 8.1.3 o'r Penderfyniad drafft.
- Eglurhad, lle caiff swydd staff cymorth ei dileu yn dilyn newid arweinydd grŵp, y bydd taliadau o'r fath yn cael eu didynnu o gyllideb Grŵp yn y Senedd, fel y nodir yn adran 8.5.

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach.

Mewnosod y newidiadau cyfatebol fel ar gyfer Pennod 7 gan gynnwys troednodyn yn adran 8.1 i adlewyrchu'r dyddiad cau estynedig i 30 Mehefin 2026 ar gyfer gweithredu'r fframwaith cyflog a graddio.

Mae Adran 8.3.2, sy'n croesgyfeirio pa ddarpariaethau staffio'r Aelodau a nodir ym Mhennod 7 sy'n berthnasol hefyd i Arweinwyr Grŵp neu eu staff, wedi'i hehangu i ymgorffori 7.8 (absenoldebau staff cymorth) a 7.9 (secondiadau staff), a gafodd eu hepgor yn y Penderfyniad drafft.

Mae’r adrannau ar lety dros nos, teithio a chynhaliaeth (a oedd yn adrannau ar wahân yn y Penderfyniad drafft yn wreiddiol) wedi cael eu cyfuno yn adran fyrrach 8.4.

Mae adran 8.5 (adran 8.7 yn y fersiwn ymgynghori) wedi'i diwygio i egluro bod ystyr diswyddo fel y'i nodir yn adran 139 o Ddeddf Hawliau Cyflogaeth 1996 ac mae testun sy'n cyfeirio at ba gyllidebau y mae unrhyw gostau diswyddo yn daladwy ohonynt wedi'i symud i adran newydd 8.7.

Mae adran 8.6 newydd wedi'i mewnosod i ddarparu y gall Arweinwyr Grwpiau hawlio am Yswiriant Atebolrwydd Arferion Cyflogaeth.

Mae adran newydd 8.7 yn crynhoi 'Costau o dan y Bennod hon' wedi'i mewnosod (yn gyson â phenodau eraill yn y Penderfyniad).

# Pennod 9: Aelodau sy'n gadael eu swyddi

## Cefndir

**121.** Nid oedd unrhyw newidiadau polisi sylweddol wedi'u nodi yn yr ymgynghoriad, ac mae'r bennod wedi'i symleiddio, gyda gwahanol adrannau wedi'u huno neu eu dileu.

### Crynodeb o ymatebion yr ymgynghoriad a'u hystyried

**122.** Cafwyd un ymateb mewn perthynas â Phennod 9. Nododd Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd fod diben y darpariaethau a wneir ym Mhennod 9 wedi'u nodi'n glir, ond gwnaeth rai awgrymiadau i wella eglurder adran 9.1.

**Canlyniad: Newidiadau drafftio**

Mae mân welliannau drafftio/testunol wedi'u hymgorffori i egluro neu symleiddio'r Penderfyniad ymhellach, gan gynnwys adran 9.1 mewn ymateb i sylwadau'r Swyddog Cyfrifyddu.

## Atodiad 1: Y rheini a ymatebodd i’r ymgynghoriad

Cyhoeddodd y Bwrdd yr ymgynghoriad ar y Penderfyniad drafft ar gyfer y Seithfed Senedd i holl Aelodau'r Senedd, staff cymorth yr Aelodau a staff grwpiau a'u cynrychiolwyr undebau llafur, pleidiau gwleidyddol a nifer o randdeiliad, gan gynnwys sefydliadau cynrychioliadol busnes, sefydliadau cynrychioliadol cydraddoldeb, cyrff y sector cyhoeddus ac academyddion.

Cyhoeddodd y Bwrdd ddatganiad i'r wasg a chyhoeddwyd y ddogfen ymgynghori ar wefan y Bwrdd ac ar X.

Ymatebodd yr unigolion a’r grwpiau a ganlyn i’r ymgynghoriad:

Comisiynydd Safonau y Senedd

Grŵp y Ceidwadwyr Cymreig

Grŵp Llafur Cymru

Grŵp Plaid Cymru

Prif Weithredwr a Chlerc y Senedd

Y Llywydd a Chadeirydd Comisiwn y Senedd

Aelod o Staff Cymorth (dienw)

Cangen PCS Plaid Cymru

Cymdeithas yr Iaith

Comisiynydd y Gymraeg

Adam Price AS